Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU
A
PHRIF GWNSTABL
DYFED-POWYS

# Adroddiad Blynyddol Cyd-bwyllgor Archwilio 2017/18

*DIOGELU EIN CYMUNEDAU GYDA'N GILYDD*

# Cynnwys


Rhagair gan y Cadeirydd 2

Rôl y Cyd-bwyllgor Archwilio 3

Aelodaeth 4

Rhaglen waith ar gyfer 2017/18 5

Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19 6

# Rhagair gan y Cadeirydd

Mae Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn annibynnol o'r Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac mae'n cynnwys aelodau sy'n medru cyflwyno amrediad o sgiliau a phrofiad i'r bwrdd. Gan hynny, mae mewn sefyllfa unigryw i roi sicrwydd a chyngor ar gyflwyno llywodraethu da o fewn y ddau sefydliad.

Fel Pwyllgor, rydyn ni wedi gweld newid o ran aelodaeth yn ystod y flwyddyn. Daeth hi'n amser ailbenodi dau aelod ar ôl iddynt gwblhau eu tymhorau pedair blynedd cyntaf. O ganlyniad i bwysau sylweddol fel Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, penderfynodd Gawain Evans beidio â cheisio cael ei ailbenodi am dymor pedair blynedd arall. Bu'n fraint fawr i allu tynnu ar ei wybodaeth a'i brofiad helaeth fel aelod o'r pwyllgor, ac fel Cadeirydd y pwyllgor yn ddiweddarach. Gwerthfawrogir eich cyfraniad a byddwn yn gweld ei eisiau. Wedi cyrraedd diwedd pedair mlynedd fy nhymor cyntaf mi ymgeisiais am ail-apwyntiad a chefais dymor pedair blynedd arall. Rydw i'n bles i barhau i ymgymryd â'r swydd a dwi'n hapus fy mod wedi cael fy mhenodi i swydd Cadeirydd y Pwyllgor.  Hoffwn nodi fy niolch am fewnbwn parhaol a chefnodaeth Alasdair Kenwright ac Andre Evans i waith y Cyd-bwyllgor Archwilio.
.

Mae'r lle gwag ar y pwyllgor wedi'i lenwi gan Martin Evans. Ers ymgymryd â'r rôl yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2017, mae Martin eisoes wedi dangos fod ganddo lawer i'w gynnig i'r Pwyllgor gyda'i wybodaeth sylweddol o lywodraethu corfforaethol. Bydd ei gyfraniad yn gwella gwaith y Pwyllgor yn fawr.

Mae 2017/18 wedi gweld mwy o fewnbwn gan y Cyd-bwyllgor Archwilio. Mae'r rhain wedi deillio o'r cyfle i ystyried y cyfrifon blynyddol yn fanylach gyda'r prif swyddogion ariannol yn darparu dadansoddiad a gwybodaeth gefndir mewn cyflwyniad i'r Pwyllgor a'r cyfle i fynychu digwyddiad y CHTh ym mis Rhagfyr 2017 pan drafodwyd manylion am y pwysau ariannol a wynebir er mwyn penderfynu ar y praesept ar gyfer 2018/19. Mae'r cyfleoedd hyn yn gwella dealltwriaeth am y pwysau ariannol a'r cyfyngiadau ar y CHTh a'r Prif Gwnstabl yn fawr.

Bu ymdrechion sylweddol y tîm cyllid i symud tuag at fodloni'r gofynion ar gyfer cau'n gynnar o ran cynhyrchu'r cyfrifon blynyddol ar gyfer 2017/18 yn arbennig o galonogol eleni. Dylai'r ymarfer hwn a'r gwersi a ddysgwyd sicrhau y bodlonir y cyfyngiadau o ran amser yn y dyfodol.

Yn olaf, ar ran y Pwyllgor, hoffwn ddiolch i swyddogion Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl, ynghyd â'r Archwilwyr Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru, sydd wedi cefnogi ei waith yn ystod y flwyddyn.

*Malcolm MacDonald*

*Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio*

**Mae Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol Gwasanaeth Heddlu Dyfed-Powys. Mae'n darparu ffocws annibynnol, lefel uwch ar ddigonolrwydd trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n tanategu safonau ariannol a llywodraethu da. Mae'r annibyniaeth hon yn bwysig oherwydd bod y pwyllgor, gan hynny, mewn sefyllfa unigryw o ran ei allu i roi sicrwydd a chyngor.**

Pwrpas y Cyd-bwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) a'r Prif Gwnstabl (PG) am ddigonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol, ac adrodd ariannol, gan helpu i sicrhau bod trefniadau effeithlon ac effeithiol mewn grym.

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi cael ei sefydlu yn unol â Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref, a gyhoeddwyd dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ac yn unol ag arweiniad Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).



Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Cyd-bwyllgor Archwilio'n crynhoi swyddogaethau craidd y pwyllgor a'r protocolau sydd mewn grym i'w alluogi i weithredu'n annibynnol, yn gadarn ac yn effeithiol.

**Tabl: Presenoldeb aelodau yn 2017/18**

| Aelod | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | % y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Gawain Evans | 2 | 1 | 50% |
| Malcolm MacDonald | 4 | 4 | 100% |
| Alasdair Kenwright | 4 | 4 | 100% |
| Andre Morgan | 4 | 3 | 75% |
| Martin Evans | 2 | 2 | 100% |

**Rhaid bod gan Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio ddealltwriaeth o materion ariannol, risg a rheoli, a llywodraethu corfforeathol sy'n wynebu'r PG a'r CHTh. Rhaid bod ganddynt allu i herio, cwestiynu, holi, a gofyn am eglurhad gan y CHTh a'r PG pan fod angen.**

Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor Archwilio yn ystod 2017/18 fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Gawain Evans | Cadeirydd | (Ac aelod tan 31/10/2017) |
| Malcolm MacDonald | Cadeirydd | (O 06/12/2017) |
| Alasdair Kenwright | Aelod | |
| Andre Morgan | Aelod | |
| Martin Evans | Aelod | (O 01/12/2017) |

Mae pob aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi pasio proses wirio'r heddlu ac wedi cwblhau ffurflen datgan diddordeb.

Yn ychwanegol i gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor, mae aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio hefyd yn cyfarfod yn breifat â'r archwilwyr mewnol ac allanol, heb y CHTh na'r PG, ddwywaith y flwyddyn. Mae hi hefyd yn arferiad i'r Cadeirydd gael trafodaethau gyda'r Swyddogion Statudol am faterion sy'n codi sy'n ymwneud â materion llywodraethu.

Cynhaliwyd seminar ym mis Mehefin 2017 rhwng yr Aelodau, y Prif Swyddog Ariannol, y prif Swyddog Cyllid ac arweinwyr cyllid o fewn yr Heddlu i ystyried y manylion o fewn y Datganiad o Gyfrifon drafft. Roedd pawb yn teimlo bod yr ymarfer hwn yn werthfawr iawn ac fe gynorthwyodd â chau'r cyfrifon cyn yr amserlenni statudol.

Gwahoddwyd yr aelodau i uwchgynhadledd Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ym mis Rhagfyr 2017 a roddodd drosolwg i randdeiliaid o'r heriau gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r gwasanaeth. Rhoddodd hyn y rhaglen o waith llywodraethu yr ymgymerir â hi gan y Cyd-bwyllgor Archwilio yn ei chyd-destun ac ystyriwyd ei bod yn fuddiol i bawb a oedd yno.

Er mwyn cefnogi datblygiad yr Aelodau, cynhaliwyd diwrnod datblygu Cymru Gyfan ar gyfer aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio ym mis Chwefror 2018. Rhoddodd hyn gyfle i'r Aelodau ddysgu sut y mae Cyd-bwyllgorau Archwilio eraill yn gweithredu a rhannu arfer gorau a syniadau ar gyfer datblygu. Yn ystod y dydd, ystyriodd yr Aelodau faterion archwilio a llywodraethu cyfoes, gan gynnwys cyflwyno Datganiadau Rheoli'r Heddlu, yn ogystal ag ystyried rôl y pwyllgor a sut y gall gefnogi gwaith SCHTh a'r Heddlu, er enghraifft, drwy ystyried gweithgarwch cydweithio rhwng y CHTh neu'r heddlu a chyrff eraill er mwyn cynnig sicrwydd.

Mae'r CHTh a'r PG, Prif Swyddog Ariannol a Phennaeth Staff (fel Swyddog Monitro) y CHTh, a Chyfarwyddwr Cyllid y PG hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Archwilio. Mae swyddogion eraill yn bresennol er mwyn rhoi gwybodaeth am archwiliadau, rhaglenni gwaith, neu unrhyw faterion eraill yn ôl yr angen.

*'Rwy'n fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol mewn grym yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau'* Adroddiad Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2016-17 a dderbyniwyd gan y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2017

Cyfarfu'r Cyd-bwyllgor Archwilio 4 gwaith yn 2017/18. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau, argymhellion ac arsylwadau gan archwilwyr mewnol TIAA, Swyddfa Archwilio Cymru ac archwilwyr allanol, adroddiadau asesu PEEL AHEM a gweithgarwch archwilio eraill. Yn ogystal, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan swyddogion o SCHTh a'r Heddlu ar feysydd busnes allweddol er mwyn iddynt ffurfio barn annibynnol a rhoi sicrwydd i'r CHTh a'r PG mewn perthynas â rheoliadau llywodraethu ac ariannol o fewn y Corfforaethau Undyn.

Wrth wneud hynny, mae'r Pwyllgor yn fodlon nad oes unrhyw faterion o bryder mawr sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol yr un o'r corfforaethau undyn a bod y dulliau rheoli'n ddigonol. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y fframwaith llywodraethu'n gadarn a bod rheoliadau priodol mewn grym er mwyn lliniaru risg.

Roedd y rhaglen waith yn cynnwys;

**Adrodd Ariannol:** Adolygodd y Pwyllgor datganiad o gyfrifon blynyddol ar gyfer 2016/17, ac ystyrion nhw'r Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a'r Strategaeth Gyfalaf.

**Rheoliadau Mewnol:** Adolygodd y Pwyllgor Fframwaith Sicrwydd Rheoliadau Heddlu Dyfed-Powys, yn seiliedig ar y gwaith archwilio mewnol a gynhaliwyd gan TIAA.

**Archwilio mewnol:** Goruchwyliodd y Pwyllgor gwaith a gyflawnwyd gan archwilwyr mewnol (TIAA), gan gynnwys adolygiadau o wasanaethau sydd wedi'u comisiynu, y strategaeth ystadau, trefniadau pensiwn a thrwyddedu arfau saethu. Ystyriodd y Pwyllgor cynllun archwilio mewnol blynyddol ar gyfer 2018/19.

**Archwilio allanol:** Ystyriodd y Pwyllgor Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o Ddatganiadau Ariannol ar gyfer 2016/17. Cynhaliwyd gwaith i hwyluso cau cyfrifon 2016/17 yn gynt.

**Llywodraethu:** Cafodd y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor ei adolygu a'i gadarnhau ym mis Gorffennaf 2017, gan roi gwell eglurder ynghylch rôl a chyfrifoldebau'r pwyllgor. Cyflwynodd yr aelodau sylwadau mewn perthynas â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, a gafodd ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r cyfeiriad a roddwyd gan y tîm arweinyddiaeth newydd. Mae'n gosod yr egwyddorion, y strwythurau a'r prosesau yn ôl pa rai y mae'r ddau sefydliad yn rheoli a chyfarwyddo'r gweithgareddau y maent yn egluro i'r gymuned ac yn ymgysylltu â hi yn eu cylch. Mae'r fframwaith yn galluogi'r Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ddylanwadu ar flaenoriaethau strategol a'u monitro, ac ystyried pa un ai a yw amcanion y Cynllun Heddlu a Throseddu wedi'u bodloni.

Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfodydd chwarterol y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cael ei fynychu gan gynrychiolwyr y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd, ac aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio. Mae'r grŵp hwn yn cynnal ac yn adolygu effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, ac yn ystyried y ffactorau mewnol ac allanol sy'n effeithio ar lywodraethu corfforaethol. Cyflwynodd aelodau o'r Pwyllgor sylwadau o ran y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y CHTh a'r PG.

**Rheoli risg:** Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi olrhain cynnydd a wnaed ar gyfer ymgorffori rheoli risg, ac wedi ystyried sut y mae'r risgiau Corfforaethol yn cael eu rheoli. Roedd hi'n dda gan y Cyd-bwyllgor Archwilio weld y sicrwydd sylweddol a gyflawnwyd gan y sefydliad mewn perthynas â Rheoli Lliniaru Rheolaeth Risg.

**AHEM:** Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar weithgarwch archwilio AHEM yn ystod y flwyddyn.

## Mae blaenoriaethau'r Pwyllgor yn 2018/19 yn cynnwys:

- Yn dilyn cyhoeddi canllaw pwyllgor archwilio'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a chyhoeddi datganiad wedi ei ddiweddaru gan CIPFA ynghylch rolau Prif Swyddogion Ariannol o fewn plismona, bydd Cylch Gorchwyl y Cyd-Bwyllgor Archwilio yn cael ei adolygu.

- Ystyried a chynghori ar drefniadau rheoli ariannol sydd ar hyn o bryd yn cael eu hystyried er mwyn datblygu cynllun ariannol tymor canolig cynhwysfawr.

- Cefnogi'r rhai hynny sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r Datganiadau Ariannol i symud tuag at ddiwallu'r amserlen ar gyfer cau'r cyfrifon yn gynharach.

- Goruchwylio mewnblannu trefniadau llywodraethu o fewn yr heddlu a SCHTh.

- Ystyried Datganiad Rheoli'r Heddlu 2017/18 ar gyfer unrhyw faterion sy'n disgyn o fewn cylch gorchwyl y Cyd-Bwyllgor Archwilio.

- Canolbwyntio ar weithredu'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data a chydymffurfio â gofynion statudol.

- Cynnal asesiad parhaus o waith y Cyd-Bwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau fod yr arfer gorau'n cael ei ddilyn a'i fod yn diwallu ei gylch gorchwyl.

> *'Dydyn ni ddim wedi nodi unrhyw beryglon strategol sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar effeithlonrwydd cyffredinol fframwaith perygl, llywodraethu a rheoli mewnol y sefydliad ac effeithio'n andwyol ar ein barn flynyddol.'*
> Adroddiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno Archwilwyr Mewnol TIAA 2017/18

**Cysylltwch â'r CHTh**

**Ffôn: 01267 226440**

**E-bost: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk**

**SCHTh, Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF**

**Cysylltwch â'r Heddlu**

**Ffôn: 01267 222020 / 101**

**PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF**